

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth dau o'n haelodau y penwythnos diwethaf. Bu farw Morfudd Williams (Llanfair) ar y bore dydd Gwener ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant a'u teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth am fam, nain a hen-nain hoffus. Ac yna, bore Sadwrn, bu farw Gwyn Jones (Peniel), un a fu'n ffyddlon iawn i'r eglwys ym Mheniel a chyn hynny, yn flaenor yng Nghapel y Fron, Dinbych. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i briod, Glenys, a hefyd ei blant – Rhian ac Aled a'u teuluoedd hwythau. Gweddiwn y cânt oll adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt y dyddiau hyn.
- Cofiw'n hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Aled Roberts (Henllan) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Broadgreen, ac mae Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) wedi treulio y rhan fwyaf o'r wythnos yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiw'n hefyd am Alwena Edwards (Llanfair) sydd wedi mynd i Ysbyty Gwynedd i gael llawdriniaeth. Cyflwynwn y tri ohonynt a'u hanwyliaid i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr R. J. Davies (Amber House); a Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy). Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llongyfarchiadau i Sioned a Daniel Tiplady (Groes) ar enedigaeth mab bach, Steffan Gwyn, ac i Arwyn Jones (Nantglyn) a Sian ar eu dyweddiad. Dymunwn yn dda iawn iddynt, a gweddiwn am fendith Duw arnynt.
- Llongyfarchiadau arbennig hefyd i Elena Owen (Llanefydd), Peter Jones (Groes), ac Elwyn Jones, a Richard a Gwenfair Davies (Peniel) fydd yn derbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig a gynhelir yng Nghapel Peniel, Bangor ddydd Iau nesaf. Diolchwn amdanynt, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.

Help plis!

Os ydach chi'n barod i helpu yn achlysurol hefo'r **gwaith plant a/neu ieuenctid**, byddai Rhodri Glyn yn falch o glywed gennych.

Yn yr un modd, os oes gan rai ohonoch awydd **cyfeilio gyda'r band** yn Oedfa'r Fro ar nos Sul yn achlysurol (ar unrhyw offeryn!), plis cysylltwch â Mair.

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** nos Fercher, Medi 18fed am 7.30 yng Nghapel Trefnant yng nghwmni Rhodri Glyn. Croeso cynnes i bawb.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 28ain-29ain yn y Bala. Cofiwch bod angen dychwelyd y ffurflen archebu lle, ynghyd â blaendal o £20, i Goleg y Bala erbyn Medi 13eg.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Medi 2013

Darlleniad y Dydd
1 Brenhinoedd 6:1–7
(BCND tud.314 / BCN: tud.287)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Yr wythnos hon daeth y newyddion fod Wrecsam wedi ei dewis i fod yn lleoliad i garchar newydd – y carchar mwyaf ym Mhrydain a fydd yn gallu dal hyd at ddwy fil o garcharorion. Newyddion da yn wir i economi'r cylch – mae cael carchar mewn ardal yn gaffaeliad anferth i swyddi a gwariant, a hynny am gyfnod hir. Ar y llaw arall clywyd gofidiau hefyd gan bobl leol sy'n pryderu am golled yng ngwerth tai ac eiddo ac am y risg o anrhefn a thorcyfraith.

Yn fy ngwaith o'r blaen, bûm yn ymweld yn lled gyson â charchar Altcourse yn Lerpwl ac yn gweithio hefo'r staff i geisio gwella gofal a chyfle i droseddwr wrth iddynt ddod yn ôl i fyw yng Ngogledd Cymru. Yn aml byddai llawer o'r gwaith da a wnaed yn y carchar yn cael ei ddadwneud yn fuan wrth i bwysau hen ffrindiau neu chwant am ddiod neu gyffuriau ail-afael. Weithiau hefyd byddai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi eilwaith wrth i berson ddychwelyd gartref gan eu bod bellach yn sobr ac yn ymddwyn yn wahanol iawn i'r ffordd oeddent cyn mynd i mewn. Sut y mae modd mesur llwyddiant carchar tybed? Yn sicr nid yn unig wrth fesur y lleihad mewn ail-droseddu ond hefyd yn yr ystyriaeth o wellhad yn ansawdd bywyd yr unigolion, y teuluoedd a'r gymdeithas. Tasg eithriadol o gymhleth os cofia i'n iawn!

Credwn fod pob Cristion wedi cael eu rhyddhau trwy ras Duw o garchar pechod ac ofn. "I ryddid!" Dyna brofiad y genedl yn yr hen Destament wrth iddynt gael eu harwain o'r Aifft a dyna hefyd sydd yn digwydd o ran gwaith gras o dan y Testament Newydd. "O'r carchar caeth y dygir llu, trwy ras, i deulu Duw...." (CFF: 482; hefyd Galatiaid 5: 1) Ond sut y mae mesur llwyddiant gras? Dyna i chi dasg gymhleth arall! Mesur y newid sydd wedi dod i'r galon – cynnydd y sicrwydd yn Iesu fel Gwardwr, cynnydd yn y pwysu a wnawn arno o ddydd i ddydd, cynnydd yn noniau'r Ysbryd a brofwn yn gweithio ynom. A newid yn ein teulu hefyd? A beth am ein dylanwad yn y gymdeithas a'r gwaith o dystio i'r Arglwydd? Ystyriwn hyn o ddifrif – cawsom ein rhyddhau o garchar, ond sut mae hi arnom bellach?

Diddorol fod y darlleniad heddiw yn gwneud cyswllt pendant rhwng yr amser a oedd wedi pasio rhwng rhyddhau yr Israeliaid o'r Aifft hefo dyddiad dechrau adeiladu Teml Jerwsalem. Wedi'n rhyddhau, ein braint yw cael ein hadeiladu'n Deml i'r Duw byw trwy'r Ysbryd. (Effesiaid 2: 21)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Cyflwyniad syml i Gristnogaeth** – Cynhelir y sesiwn olaf yng Nghapel Llanefydd am 7.30 i'r rhai 15+ sy'n ystyried dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn • **O Gapel i Gapel gynt** – Taith gerdded (14 milltir, neu mae croeso i chi gerdded rhan o'r daith) efo Rhys Dafis o gwmpas cyn gapeli ardal Llansannan: Horeb, Bryn Seion, Nantwnen, Glanrhyd, Penycefn, Hebron a Tanyfron. Tro efo ychydig o her, tipyn o hanes, a llawer o fwynhad. Holwch un o'r blaenoriaid am gopi o'r daflen sydd â'r manylion llawn arni (neu cysylltwch â Mair i gael copi). ****PWYSIG** RHAID** i Rhys gael gwybod pwy sy'n bwriadu mynd ar y daith **erbyn Nos Iau, Medi'r 12fed** fan bellaf.

Sul nesaf

OEDFA ARBENNIG I'R FRO

i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 10.30

i groesawu 18 o gyfeillion o'r India, y rhan fwyaf ohonynt
yn weinidogion yn Eglwys Bresbyteraidd yr India.

PLANT: Bydd neges i'r plant yn ystod y gwasanaeth
a bydd darpariaeth pellach ar eu cyfer yn y Ffestri yn ystod y bregeth.

Bydd yr ymwelwyr yn aros i gael cinio hefo ni.

Gwahodwn bawb i ddod â chinio hefo nhw fel y cawn amser i gymdeithasu
ac i fwynhau cwmniaeth yn dilyn yr oedfa.

Yna, bydd

OEDFA ARBENNIG YN LLANEFYDD

am 6.00

pryd y bydd rhai o ieuencid y Fro yn cael eu derbyn yn aelodau.

Croeso cynnes i bawb.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl
adnoddau i ddyrchafu lesu, a chyrraedd ein cymunedau.**